# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 20 Awst 2008

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai Cwestiynau i'r

5 Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Cwestiynau i’r Dirprwy Brif Weinidog a’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**Sandy Mewies (Delyn):** Faint mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi’i wario ar faterion sy’n ymwneud â thrafnidiaeth yn sir y Fflint yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf? (WAQ52395)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Nodais fod dros £15.5 miliwn o adnoddau Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi’i neilltuo ar gyfer gwariant ar faterion trafnidiaeth yn Sir y Fflint yn y flwyddyn ariannol 2007-08.

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Pa amcanestyniadau ar gyfer pris olew a dybir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wrth werthuso gwerth economaidd prosiectau trafnidiaeth? (WAQ52409)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Nid yr un yw pris yr olew a ddefnyddiwn i werthuso prosiectau trafnidiaeth a phris petrol heddiw wrth y pwmp ac mae’r ateb i’ch cwestiwn yn gymhleth.

Fel enghraifft, ar gyfer cynlluniau ffordd, caiff y gwerthusiad fel arfer ei gynnal dros gyfnod o 60 mlynedd. Mae’r feddalwedd dadansoddi cost a budd safonol yn cyfrifo cost tanwydd, treth tanwydd a TAW yn ôl ceiniog y litr. Mae cost tanwydd wedi’i ymgorffori yng ‘Nghostau Gweithredu Cerbydau’. Mae’r rhain yn cynnwys tanwydd, olew a theiars, ac elfen o waith cynnal a chadw’r cerbydau.

Caiff costau a buddiannau a gwyd mewn gwahanol flynyddoedd eu cyfleu yn nhermau eu gwerth o bwynt arhosol blwyddyn benodol, a elwir ‘blwyddyn gwerth presennol’, sef ‘blwyddyn sylfaen pris’ hefyd. 2002 yw’r flwyddyn hon ar hyn o bryd.

Caiff costau a buddiannau a gwyd mewn gwahanol flynyddoedd eu troi’n werthoedd heddiw drwy broses ddisgowntio. Yn y DU, y gyfradd ddisgowntio bresennol yw 3.5% ar gyfer 30 mlynedd gyntaf y gwerthusiad a 3% o hynny ymlaen. Mae adio gwerthoedd presennol y costau a’u tynnu o werth presennol y buddiannau yn rhoi ‘gwerth presennol net’ y cynllun ym mhrisiau 2002 wedi’u disgowntio i 2002.

Mae WebTAG (Canllawiau Dadansoddi Trafnidiaeth yr Adran Drafnidiaeth) yn rhoi tablau o baramedrau cost gweithredu cerbyd tanwydd ar gyfer amryw gategorïau o gerbydau. Caiff y paramedrau hyn eu troi yn geiniog y cilomedr drwy luosi â chost adnodd y tanwydd ym mhrisiau 2002. Mae cost yr adnodd yn net o drethiant anuniongyrchol. Y ffigurau hyn yw’r ffigurau a gyhoeddwyd yn ‘Transport Statistics Great Britain’ (yr Adran Drafnidiaeth 2005). Mae WelTAG yn gydnaws ag Webtag ac yn cyfeirio at yr un rhagolwg twf yng nghost adnodd tanwydd hyd at y flwyddyn 2025.

Cynhelir arfarniad o seilwaith trafnidiaeth dros gyfnod hir. Mae’r feddalwedd sy’n prosesu’r elfen danwydd o gostau gweithredu cerbydau yn ystyried newidiadau yng nhategorïau cerbydau dros amser, yng nghyfran y fflyd geir sy’n defnyddio petrol neu ddiesel, gwelliannau mewn effeithlonrwydd cerbydau a newidiadau i gost tanwydd. Mae’r Adran Drafnidiaeth ar hyn o bryd yn gwneud gwaith ymchwil i wella cadernid y fethodoleg.

Yn 2007, lansiodd yr Adran Drafnidiaeth ymgynghoriad ar Adnewyddu’r Dull Newydd o Arfarnu (NATA). Mae fframwaith NATA yn cynnwys canllawiau, offer dadansoddi, tybiaethau cyffredin ynghylch tueddiadau trafnidiaeth, data a chymorth cysylltiedig i’r rhai sy’n asesu ymyriadau trafnidiaeth. Mae NATA yn cynnwys WebTAG, rhagolygon modelu, pecynnau meddalwedd megis COBA, TUBA a QUADRO a chyngor technegol arall. Daeth yr ymgynghoriad ar Adnewyddu NATA i ben ar 31ain Mawrth 2008, ac mae’r Adran Drafnidiaeth wedi cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion.

Ym mis Gorffennaf 2008, paratôdd yr Adran Drafnidiaeth ganllawiau drafft sy’n cynnwys gwerthoedd costau tanwydd diwygiedig. Ni chaiff y canllawiau hyn eu cwblhau tan Ebrill 2009. Caiff diwygiadau i gost tanwydd yn y dyfodol a gwyd yn sgîl yr adolygiad hwn eu hadlewyrchu yn WelTAG.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Faint o arian a ddyrannwyd i bob Awdurdod Addysg Lleol yng Nghymru i ddarparu cefnogaeth i ddisgyblion nad Saesneg yw eu hiaith frodorol? (WAQ52404)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Mae Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi cymorth sylweddol i ddisgyblion lle mae Saesneg, neu Gymraeg, yn iaith ychwanegol. Mae’r tabl isod yn dangos yr arian a ddyrannwyd o dan y Grant yn y blynyddoedd ariannol 2007-08 a 2008-09. Dyfarnwyd y Grantiau ychwanegol yn 2007-08 yn ystod y flwyddyn i gydnabod y pwysau ychwanegol ar ysgolion yn sgîl nifer gynyddol o blant i weithwyr mudol o wladwriaethau sydd wedi’u derbyn i’r UE. Dyfarnwyd y grantiau ychwanegol drwy gyfeirio at niferoedd y disgyblion. Heblaw am yr arian hwnnw, ac fel y dengys y tabl, cafwyd cynnydd sylweddol o £1 filiwn yn arian y Grant o 2007-08 i 2008-09 a disgwylir iddo gynyddu o £0.5 miliwn pellach ym mhob un o’r ddwy flwyddyn ariannol nesaf.

**Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig**

| | 2007 - 08 | 2007 - 08 | 2007 - 08 | 2008 - 09 |
|---|---:|---:|---:|---:|
| | **Prif** | **Ychwanegol** | **Cyfanswm** | **Prif** |
| **Awdurdod Addysg Lleol** | £ | £ | £ | £ |
| | | | | |
| Ynys Môn | 37,000 | 9,650 | 46,650 | 37,000 |
| Blaenau Gwent[1] | 18,000 | - | 18,000 | 18,000 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 72,000 | 10,615 | 82,615 | 90,000 |
| Caerffili | 23,000 | 4,825 | 27,825 | 47,000 |
| Caerdydd | 4,000,000 | 61,760 | 4,061,760 | 4,093,000 |
| Sir Gaerfyrddin | 106,000 | 53,075 | 159,075 | 205,000 |
| Ceredigion | 61,000 | 19,300 | 80,300 | 100,000 |
| Conwy | 60,000 | 19,300 | 79,300 | 74,000 |
| Sir Ddinbych | 70,000 | 18,335 | 88,335 | 100,000 |
| Sir y Fflint | 70,000 | 40,530 | 110,530 | 87,000 |
| Gwynedd | 44,000 | 10,615 | 54,615 | 61,000 |
| Merthyr Tudful | 51,000 | 10,615 | 61,615 | 59,000 |
| Sir Fynwy | 33,000 | 4,825 | 37,825 | 53,000 |
| Castell-nedd Port Talbot | 73,000 | 13,510 | 86,510 | 134,000 |
| Casnewydd | 1,250,000 | 69,480 | 1,319,480 | 1,612,000 |
| Sir Benfro | 48,000 | 19,300 | 67,300 | 74,000 |
| Powys | 112,000 | 31,845 | 143,845 | 197,000 |
| RhCT | 86,000 | 22,195 | 108,195 | 124,000 |
| Abertawe | 1,512,000 | 26,055 | 1,538,055 | 1,450,000 |
| Tor-faen | 29,000 | - | 29,000 | 64,000 |
| Bro Morgannwg | 172,000 | 10,615 | 182,615 | 59,000 |
| Wrecsam | 173,000 | 40,530 | 213,530 | 262,000 |
| **Cyfanswm** | **8,100,000** | **496,975** | **8,596,975** | **9,100,000** |

Dyfarnwyd grant ar y cyd i Flaenau Gwent, Casnewydd a Thor-faen o ran y dyfarniad ychwanegol

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Pa ganllawiau fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n eu rhoi i Awdurdodau Addysg Lleol neu ysgolion i ddarparu cefnogaeth i ddisgyblion nad Saesneg yw eu hiaith frodorol? (WAQ52405)

**Jane Hutt:** Ceir nifer o ganllawiau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Awdurdodau Addysg Lleol ac ysgolion sy'n darparu ar gyfer plant sydd â Saesneg, neu Gymraeg, yn iaith ychwanegol iddynt.

Darperir canllawiau cyffredinol ar addysg gynhwysol, gan gynnwys dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol, yng Nghylchlythyr 47/2006 'Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion' Llywodraeth Cynulliad Cymru. Er nad yw'r canllawiau eu hun yn statudol, mae'n nodi'r ddeddfwriaeth benodol y mae gofyn i awdurdodau lleol, ysgolion a'u partneriaid lynu wrthi ac yn rhestru dogfennau canllaw perthnasol eraill. Hefyd, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n drafftio canllawiau penodol ar egwyddorion gwella cyrhaeddiad lleiafrifoedd ethnig mewn addysg. Caiff y canllawiau eu cyhoeddi erbyn Gwanwyn 2009. I ategu'r canllawiau hyn, mae DVD newydd hefyd yn cael ei gynhyrchu a fydd yn cynnwys arfer gorau ledled Cymru ar Saesneg neu Gymraeg fel iaith ychwanegol mewn ysgolion. Mae canllawiau newydd 'Hyrwyddo Amrywiaeth Ethnig a Diwylliannol yn y Cwricwlwm Diwygiedig' hefyd yn cael eu paratoi a fydd yn cynnig cyngor i ysgolion ar gyfleoedd a gyflwynir gan y Cwricwlwm newydd i hyrwyddo amrywiaeth ar sail hil a diwylliant yn weithredol.

Efallai y byddwch hefyd am fod yn ymwybodol bod Estyn wedi cyhoeddi nifer o adroddiadau, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, fel rhan o gylch gwaith blynyddol yr Arolygiaeth, sy'n amlygu arfer da o ran darparu Saesneg neu Gymraeg fel iaith ychwanegol a gwerthfawrogi amrywiaeth yn fwy cyffredinol ar gyfer ysgolion. Gellir gweld y rhain yma: http://www.estyn.gov.uk/cy_home.asp

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

**Janet Ryder (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl y diwydiant cludo nwyddau ar y ffyrdd yng Nghymru yn y cynllun trafnidiaeth cludo nwyddau. (WAQ51803)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Thank you for your recent written Assembly question in which you asked for a statement on progress in drafting legislation on statutory health impact assessments.

Considerable progress has been made on incorporating health impact assessments into the planning policy framework. In 2006, the Welsh Assembly Government published a consultation draft ministerial interim planning policy statement (MIPPS) on planning, health and wellbeing, which drew attention to the importance of health impact assessments in preparing local development plans and, where appropriate, in deciding planning applications. The final version will be published later this year as part of the consolidated 'Planning Policy Wales'.

This is supplement by proposals in the draft coal technical advice note requiring HIAs to be submitted with opencast coal applications. Responses raised on this and other issues will be taken into account in finalising the TAN for publication later this year. This will fulfil the Welsh Assembly Governments 'One Wales' commitment to introduce compulsory health impact assessments for opencast coal applications.

**Sandy Mewies (Delyn):** Faint mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wario ar brosiectau amgylcheddol yn sir y Fflint yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf? (WAQ52396)

**Jane Davidson:** Fi sy'n gyfrifol am wariant amgylcheddol o fewn fy Adran. Yn 2007/08 gwariwyd dros £1.6 miliwn ar brosiectau amgylcheddol yn Sir y Fflint, naill ai'n uniongyrchol gan yr Adran neu gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru.

**Sandy Mewies (Delyn):** Faint mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wario ar dai yn sir y Fflint yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf? (WAQ52394)

**Y Dirpwy Weinidog dros Dai (Jocelyn Davies):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi grantiau o dan y rhaglenni canlynol i dai yn Sir y Fflint yn 2007/2008.

| | |
|---|---|
| Grant Tai Cymdeithasol | £ 8.285 miliwn |
| Grant Refeniw Cefnogi Pobl | £ 1.725 miliwn |
| Grant Cefnogi Pobl | £ 5.440 miliwn |
| Grant Digartrefedd a Rheoli Tai Cymdeithasol | £ 0.180 miliwn |
| Gwasanaethau Gofal a Thrwsio Sir y Fflint | £ 0.131 miliwn |
| Rhaglen Addasiadau Brys | £ 0.086 miliwn |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr | £ 5.2 miliwn |

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Nick Ramsay (Mynwy):** Sut y blaenoriaethir cleifion ar gyfer llawdriniaethau gosod clun newydd yn ysbytai Cymru yn dilyn 'torri asgwrn y forddwyd'? (WAQ52398)

**Nick Ramsay (Mynwy):** Beth yw'r amser targed ar gyfer llawdriniaeth o dderbyn claf ar gyfer gosod clun newydd yng Nghymru yn dilyn 'torri asgwrn y forddwyd'? (WAQ52399)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Fe'ch cyfeiriaf at WAQ52349 a WAQ52350.

**Mike German (Dwyrain De Cymru):** Pa gynnydd y mae'r Gweinidog wedi'i wneud ar weithredu "sgrinio wedi'i dargedu rheolaidd" ar gyfer diabetes yn dilyn pleidlais unfrydol y Cynulliad Cenedlaethol yn cymeradwyo'r egwyddor ar 24ain Chwefror 2004? (WAQ52400)

**Edwina Hart:** Datblygwyd Cynllun i Reoli Diabetes yng Nghymru: Canllawiau Consensws ar Ddiabetes, a chânt eu cyhoeddi a'u lansio yn ddiweddarach eleni. Maent yn cynnwys arweiniad manwl i'r GIG i'w cynorthwyo i reoli'r gwaith o ofalu am bobl sydd â diabetes ledled Cymru gan gynnwys argymhellion ynghylch sgrinio wedi'i dargedu'n rheolaidd.

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** Faint o bobl yr effeithir arnynt gan anableddau cyfathrebu sy'n ymwneud â strôc yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro ac yng Nghymru gyfan? (WAQ52401)

**Edwina Hart:** Nid yw'r ystadegau hyn ar gael yn ganolog.

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i gynyddu cefnogaeth ar gyfer goroeswyr strôc a'u gofalwyr? (WAQ52402)

**Edwina Hart:** Ym mis Rhagfyr 2007, cyhoeddais raglen waith ffurfiol ar gyfer 2008-11 yn nodi camau a cherrig milltir clir i'w gweithredu gan y GIG a'r Gwasanaethau Cymdeithasol i wella gwasanaethau strôc.

Mae'r rhaglen waith hon yn cwmpasu atal hyd at adsefydlu, gan nodi'n glir y camau y mae angen eu cymryd i wella'r gwasanaeth a ddarperir a rhoi canlyniadau gwell i ddioddefwyr strôc.

Un o gamau allweddol y rhaglen hon yw datblygu a gweithredu cynllun gofal hirdymor ar gyfer cleifion strôc. Rhaid i'r cynllun hwn gynnwys atgyfeirio i amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys gwasanaethau adsefydlu arbenigol yn y gymuned, megis therapi iaith a lleferydd a chymorth cyfathrebu; therapi ysbyty dydd neu gleifion allanol; cymorth teulu a gofalwr yn y gymuned; gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer cymorth cymunedol, gan gynnwys addasiadau i'r cartref yn ogystal ag addysg a chefnogaeth ar gyfer hunangymorth gan gynnwys dychwelyd i'r gwaith, camau atal eilaidd a rheoli meddyginiaethau. Bydd y gwaith hwn i wella gwasanaethau yn cymryd amser i'w gyflawni.

I gynorthwyo'r gwaith hwn, rwy'n sicrhau bod £2.5m ar gael yn rheolaidd o 2008-09, ar gyfer cyflyrau hirdymor megis strôc, fel rhan o ymrwymiad Cymru'n Un.

**Lesley Griffiths (Wrecsam):** Pa gynnydd sydd wedi cael ei wneud ar sefydlu cyfleuster gwasanaethau brys ar y cyd yn Wrecsam? (WAQ52403)

**Edwina Hart:** Hyd yma, mae'r Uned Derbyniadau Meddygol a'r Uned Goronaidd Aciwt wedi'u cyd-leoli, a sefydlwyd gwasanaeth gofal sylfaenol newydd y tu allan i oriau.

Mae disgwyl i'r gwaith o ail-ddylunio'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn Wrecsam, i gynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd Meddwl, gael ei gwblhau yn Rhagfyr 2009. Rwyf wedi sicrhau bod £4.998m o gyfalaf ar gael i gynorthwyo'r Cynllun.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** A fyddai'r Gweinidog yn gwneud datganiad am strategaethau BILlau i weithredu'r Safonau Canser Cenedlaethol? (WAQ52406)

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Pa fesurau sydd ar waith i sicrhau bod BILlau yn glynu wrth y Safonau Canser Cenedlaethol? (WAQ52407)

**Edwina Hart:** Disgwylir i Fyrddau Iechyd Lleol gydweithio drwy'r tri Rhwydwaith Canser rhanbarthol i gyrraedd y Safonau Canser Cenedlaethol erbyn Mawrth 2009. Ar adeg cyhoeddi'r Safonau yn 2005, roedd gofyn i'r Rhwydweithiau fapio ac asesu'r gwasanaethau cyfredol yn erbyn y Safonau a datblygu cynlluniau gweithredu ffurfiol i fapio'r daith tuag at gydymffurfiaeth lwyr. Monitrir y cynlluniau gweithredu hyn yn ofalus gan y Swyddfeydd Rhanbarthol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru £4.5 miliwn ychwanegol yn rheolaidd o 2007 i gynorthwyo'r broses weithredu. Ysgrifennais at Gadeiryddion y GIG ym mis Gorffennaf yn nodi camau allweddol ffurfiol ar gyfer gweddill 2008-09 yn y cyfnod sy'n arwain at derfyn amser Mawrth 2009 ynghyd â chamau allweddol ar gyfer 2009-10 a 2010-11 i sicrhau y caiff y Safonau eu cynnal a'u datblygu.